# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mehefin 11eg 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Catrin Charles a'r clerc

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Catrin ac Owain Charles ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd y ffordd rhwng Pant yr Hedydd a Chapel Arenig ar y rhaglen i dderbyn clytwaith.
ii) Adroddwyd fod y twll yn y ffordd rhwng Plas Madog a Penbryncoch, Parc wedi cael ei lenwi.
iii) Roedd y gwter rhwng Pentref Felin a Wern Goch, Parc ar y rhaglen gwaith i gael ei wagu.
iv) Cafwyd cadarnhad fod bwriad i osod arwyddion bob ochr i bentref Parc i rybuddio cerbydau artic i beidio dilyn cyfarwyddiadau sat-nav a theithio'n bellach gan fod pont gul/cyfyngiad lled yno.

b) Ymweliad a safle gwaith Llyn Celyn.
Cafwyd adroddiad gan y cynghorwyr o hyn a welwyd yn y diwrnod agored.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhybudd cau'r ffordd yn Llidiardau 15/07/24 a Pharc 06/06/24.

b) Llywodraeth Cymru.
i) Adran Trafnidiaeth – adolygu'r terfyn cyflymder 20 m.y.a. - cytunwyd i nodi cais blaenorol y Cyngor i newid y cyfyngiad cyflymder yn nôl i 30 m.y.a. rhwng Llyn Tegid a'r Orsaf Heddlu.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Nid oedd unrhyw gais i'w drafod.

**vi) Materion Ariannol**
a) Derbyniadau.
i) Rhandal cyntaf y Praesept - £2,250

b) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol.
Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i un risg, sef diffyg gwahanu dyletswyddau wrth greu a phrosesu taliadau ar lein a chynghorwyd i gymryd camau priodol i'w lliniaru. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwanegu Huw Charles i'r cyfrif banc arlein fel ei fod yn gallu awdurdodi taliadau mae'r clerc yn ei wneud. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Pryder am gyflwr coeden onnen wrth fynedfa Rhydyfen.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 10fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….